# SYSTEMAU DRAENIO CYNALIADWY

## CANLLAW I DDECHREUWYR

LLYFRYN GWEITHGAREDDAU

PAM MAE LLIFOGYDD YN DIGWYDD?

YDYN NHW'N MYND YN WAETH?

BETH ALLWN NI EI WNEUD?

TREES FOR CITIES

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| 3 | Pwy yw Trees for Cities? |
| 4 | Am beth mae'r llyfryn yn sôn? |
| 5 | Y cylch dŵr |
| 6 | Pam mae hi'n bwrw glaw? |
| 7 | Pam mae llifogydd yn digwydd? |
| 8 | Stori diferyn o law |
| 9 | Ydy llifogydd yn beth da neu ddrwg? |
| 11 | Ydy llifogydd yn gwaethygu? |
| 12 | Trefoli |
| 13 | Ymarfer mapio'r maes chwarae |
| 15 | Newid hinsawdd a'r effaith tŷ gwydr |
| 18 | Y drewdod mawr |
| 19 | Datrysiadau seiliedig ar natur |
| 25 | Ymarfer mapio'r maes chwarae 2 |
| 26 | Beth i'w wneud os bydd llifogydd |
| 27 | Cwis newid hinsawdd |
| 28 | Beth fydd ei angen arnoch os bydd llifogydd? |
| 29 | Pam mae angen i ni arbed dŵr? |
| 30 | Lleihau eich defnydd o ddŵr |
| 32 | Geirfa |

TREES FOR CITIES

## PWY YDYN NI?

Trees for Cities yw’r unig elusen yn y DU sy’n gweithio ar raddfa genedlaethol i wella bywydau drwy blannu coed mewn dinasoedd. Rydyn ni’n gweithio’n agos gyda chymunedau lleol i wireddu newid parhaol yn eu cymdogaethau.

Mae ein gwaith mewn ysgolion yn cynnwys trawsnewid tiroedd ysgol yn llennyrch gwyrddion braf ar gyfer plant heddiw a chenedlaethau’r dyfodol. Drwy weithio mewn partneriaeth â phlant ac ysgolion, rydym yn ailddychmygu ac yn ailddylunio meysydd chwarae; yn cyflwyno coed, gerddi coedwig, cyfleoedd i dyfu bwyd, ystafelloedd dosbarth awyr agored a choetiroedd chwarae. Rydyn ni hefyd yn defnyddio coed mewn meysydd chwarae fel rhwystrau naturiol i lygredd ac amddiffynfeydd rhag llifogydd.



*Gerddi glaw wedi’u dylunio gan Trees for Cities.*



TREES FOR CITIES

## AM BETH MAE'R LLYFRYN YN SÔN?

Mae'r llyfryn hwn yn cyflwyno'r cylch dŵr a sut mae'n gysylltiedig â newid hinsawdd.

Mae'n esbonio sut mae ein dinasoedd yn wynebu perygl uwch o lifogydd a llifogydd mwy dwys.


Bydd y gweithgareddau yn y llyfryn hwn yn esbonio sut gellir defnyddio datrysiadau naturiol i leihau perygl llifogydd yn eich ysgol chi.

Wrth i newid hinsawdd barhau i newid ein hamgylchedd, bydd y llyfryn hwn yn trafod ffyrdd y gallwch chi arbed dŵr.



*Gardd law yn cynnwys llwybr uchel*

# Y CYLCH DŴR




Ceir dŵr mewn 3 ffurf: iâ solet, dŵr hylifol a stêm nwyol. I droi o solid i hylif ac yna'n nwy, rhaid ychwanegu egni. Po uchaf y tymheredd, y cyflymaf y bydd y dŵr yn anweddu.

Mae'r **Cylch Dŵr** yn disgrifio'r gwahanol ffyrdd y mae dŵr yn symud drwy ein system dywydd.



# PAM MAE HI'N BWRW GLAW?



Wrth i chi anadlu allan ar ddiwrnod oer, efallai y gwelwch eich anadl yn yr awyr fel stêm.

Mae'r oerfel yn achosi i'r dŵr yn eich anadl gyddwyso'n ddiferion pitw bach gweladwy.

Mae'n edrych fel cwmwl am ei fod yn mynd drwy'r un broses bron â'r cymylau yn yr awyr.

Mae dŵr yn anweddu o'r tir, o afonydd a'r môr. Yna mae'n codi i'r awyr.

Ar uchder penodol, mae'r dŵr yn cyddwyso'n ddiferion pitw bach o'r enw anwedd dŵr.

Os oes digon o anwedd dŵr yn yr aer, bydd y diferion bychain yn glynu wrth ei gilydd, yn mynd yn drwm ac yn cwympo fel **dyddodiad**.



# PAM MAE LLIFOGYDD YN DIGWYDD?

Pan fydd mwy o law nag y gall y ddaear ei amsugno neu afonydd a charthffosydd eu cludo ymaith, yna bydd y dŵr yn dechrau llifo dros ardaloedd sydd fel arfer yn sych. Y gair am hyn yw llifogydd.



Mae tri phrif fath o lifogydd:


**1. Llifogydd Glaw neu Ddŵr Wyneb (Glawol)** – yn sgil glaw trwm iawn sy'n achosi i ddŵr gronni a llifo dros arwynebau anhydraidd (sy ddim yn amsugno dŵr).

**2. Llifogydd o Afonydd (Afonol)** – pan fydd mwy o ddŵr mewn afon nag y mae'r afon yn gallu ei ddal, gan achosi i'r dŵr lifo dros ei glannau ac i'r tir cyfagos.

**3. Llifogydd Arfordirol** – ble mae llanw uchel, stormydd neu godiad yn lefel y môr yn achosi i ddŵr o'r môr lifo dros ardaloedd arfordirol isel.



# STORI DIFERYN O LAW




Dychmygwch eich bod yn ddiferyn o law yn disgyn i'r ddaear a'ch bod ar fin mynd trwy'r cylch dŵr yn ei gyfanrwydd. Disgrifiwch eich taith.

**Geiriau Allweddol:** cwmwl, afon, môr, anweddiad, cyddwysiad, dyddodiad

# YDY LLIFOGYDD YN BETH DA NEU DDRWG?

Dychmygwch fod llifogydd mawr wedi taro'ch ardal chi. Beth efallai fyddai rhai o'r effeithiau drwg?

Nawr ydych chi'n gallu meddwl am rywfaint o resymau pam y gallai llifogydd mewn rhai llefydd fod yn beth da?



**Gall llifogydd fod yn ddrwg.**

- Gall llifddwr ddifrodi adeiladau.
- Gall dŵr ddifrodi a rhwystro ffyrdd.
- Gallant gludo clefydau sy'n brifo pobl ac anifeiliaid.
- Gall y llifddwr gynnwys llygredd.

**Gall llifogydd fod yn dda.**

- Gall llifddwr gludo maethynnau sy'n gallu cyfoethogi'r pridd ble mae ffermwyr yn tyfu bwyd i ni ei fwyta.
- Gall llifogydd greu cynefinoedd ar gyfer pysgod, adar a mathau eraill o fywyd gwyllt, gan hybu bioamrywiaeth.
- Mae llawer o anifeiliaid yn defnyddio llifogydd i symud o gwmpas a dod o hyd i gartrefi newydd.
- Mae llifogydd yn helpu i lenwi cyflenwadau dŵr dan y ddaear, a gallwn eu defnyddio fel dŵr yfed.



# YDY LLIFOGYDD YN GWAETHYGU?

Mae yna ddau reswm pam fod llifogydd yn dod yn fwy o broblem:

**Trefoli** – Mae mwy o bobl yn byw mewn trefi a dinasoedd, yn adeiladu dros ardaloedd ac yn disodli systemau draenio naturiol.



**Newid Hinsawdd** – Mae tymereddau dros y byd yn codi. Mae hyn yn golygu cynnydd ym mhob math o dywydd eithafol, gan gynnwys sychder a stormydd.



# TREFOLI



Heddiw, mae dros hanner y bobl yn y byd yn byw mewn ardaloedd **trefol**. Mae 'ardaloedd trefol' yn golygu trefi a dinasoedd, yn hytrach na chefn gwlad.

I greu dinas, rhaid i ni adeiladu dros laswelltiroedd, tynnu coed a newid cyrsiau afonydd.

Rydyn ni'n disodli arwynebau **hydraidd** (h.y. rhai mae dŵr yn gallu treiddio drwyddynt), fel glaswellt neu bridd, gydag arwynebau **anhydraidd**, fel concrit neu balmant.



Pan fydd dŵr yn glanio ar faes chwarae, does dim modd iddo dreiddio drwyddo, felly mae'n cronni yn byllau. Y gair am hyn yw llifogydd dŵr wyneb.

Mae dinasoedd yn ceisio adeiladu systemau carthffosiaeth i gludo'r dŵr ymaith yn gyflymach, ond gall y rhain fod yn ddrud iawn i'w hadeiladu a'u cynnal.

Ni all ein system garthffosiaeth bresennol ddelio bob amser â glaw trwm.

# YMARFER MAPIO'R MAES CHWARAE

Argraffwch olwg o'ch ysgol oddi uchod (y peth hawddaf ydy argraffu delwedd o Google Maps – efallai y bydd angen i'ch athro eich helpu gyda hyn).

Lliwiwch yr holl arwynebau **hydraidd** yn un lliw, y rhai **anhydraidd** yn lliw arall, a'r coed yn lliw arall eto. Yn olaf, meddyliwch am adegau pan mae hi'n bwrw glaw yn drwm iawn; pa ardaloedd sy naill ai'n gweld llifogydd neu'n mynd yn wlyb iawn dan draed? Nodwch **X** ar y rhain. Rhowch allwedd ar waelod eich tudalen. Gweler yr enghraifft isod.



**Allwedd :**

- **Hydraidd**
- **Anhydraidd**
- Coed
- X Llifogydd neu wlyb iawn

# PA MOR WYRDD YW EICH MAES CHWARAE CHI?

Edrychwch ar eich map o'ch maes chwarae. Pa siâp yw eich maes chwarae? Sut mae cyfrifo'r arwynebedd? Efallai y bydd yn rhaid i chi ei rannu'n nifer o siapiau.

Beth yw dimensiynau'r siâp hwn? Defnyddiwch olwyn fesur i gymryd mesuriadau ar y ddaear, neu defnyddiwch bren mesur i fesur ar y map. Ychwanegwch y labeli hyn at eich map.


Beth yw cyfanswm arwynebedd y maes chwarae?

Faint o le gwyrdd sydd gyda chi? Defnyddiwch yr un dull.

Pa gyfran sy'n lle gwyrdd?
Defnyddiwch yr hafaliad: arwynebedd y lle gwyrdd / cyfanswm yr arwynebedd = cyfran
I gael canran, lluoswch eich ateb â 100.

# NEWID HINSAWDD

## BETH YW'R EFFAITH TŶ GWYDR?





Pwy sy'n defnyddio tai gwydr? Ar gyfer beth maen nhw'n eu defnyddio?

Ydych chi erioed wedi bod mewn tŷ gwydr? Sut brofiad yw bod mewn un?

Garddwyr sy'n defnyddio tai gwydr. Maen nhw'n eu defnyddio i dyfu planhigion.

Mae'n gynhesach y tu mewn i dŷ gwydr na'r tu allan, ac mae hyn yn caniatáu iddyn nhw dyfu ffrwythau, llysiau neu flodau am fwy o amser.




Mae gwydr yn caniatáu i egni golau basio trwyddo. Dyna pam y gallwch weld beth sydd ar yr ochr arall. Fodd bynnag, nid yw'n gadael i **egni thermol** (**gwres**) basio trwyddo mor hawdd.

Mae golau o'r haul yn mynd i mewn i'r tŷ gwydr ac yn cynhesu'r gwrthrychau y tu mewn. Pan fyddan nhw'n allyrru egni thermol (gwres), bydd y gwydr yn ei ddal y tu mewn fel bod yr aer yn dechrau cynhesu.

# SUT MAE'R DDAEAR FEL Tŷ GWYDR?




Mae'r ddaear wedi'i hamgylchynu gan nwyon; yr enw ar hyn yw **atmosffer** y ddaear.

Mae'n cynnwys nitrogen yn bennaf (78%), a hefyd ocsigen (20%) a symiau bach o nwyon eraill, gan gynnwys argon, **carbon deuocsid** a **methan**.

Fel y gwydr ar dŷ gwydr, mae carbon deuocsid yn atmosffer y ddaear yn gadael golau i mewn, ond yna'n adlewyrchu rhywfaint o'r egni thermol yn ôl i mewn. Dyna pam ein bod ni'n galw carbon deuocsid (CO2) yn **nwy tŷ gwydr.**


Mae angen yr Effaith Tŷ Gwydr arnon ni. Pe na bai yna unrhyw nwyon tŷ gwydr, byddai'r ddaear tua 30 gradd yn oerach (-18 gradd ar gyfartaledd).




BMae llosgi **tanwydd ffosil**, fel glo, olew a nwy methan yn rhyddhau carbon deuocsid.

Po fwyaf o **nwyon tŷ gwydr** sydd yn yr atmosffer, y mwyaf o **egni thermol** sy'n cael ei adlewyrchu yn ôl i'r ddaear, ac mae hynny'n codi'r tymheredd.

# YDY'R EFFAITH TŶ GWYDR YN GWNEUD LLIFOGYDD YN WAETH?




Pan fydd y tymheredd yn uwch, mae dŵr yn anweddu'n gyflymach. Mae hyn yn golygu y bydd mwy o ddŵr yn yr aer.

Bydd llawer o **leithder** yn yr aer a bydd y tywydd yn glòs neu'n fwll. Mae'r tywydd hwn yn gwneud i chi deimlo'n chwyslyd.

Pan fo'r tywydd yn glòs, mae mwy o ddŵr yn yr aer i gyddwyso yn law. Felly mae'n bwrw glaw yn amlach ac yn drymach.


# Y DREWDOD MAWR



Yn y rhan fwyaf o ardaloedd trefol, defnyddir y **system garthffosiaeth** i ymdrin â llifogydd. System o bibellau a draeniau yw hon, sydd wedi'i chynllunio i gludo dŵr o'r ddaear mor gyflym â phosibl.

Adeiladwyd y systemau draenio hyn yn oes Fictoria diolch i ddigwyddiad o'r enw "Y Drewdod Mawr" neu "The Great Stink" yn Saesneg.

Roedd haf 1858 yn Llundain yn un poeth iawn. Oherwydd y gwres dechreuodd y carthion yn afon Tafwys ddrewi'n ofnadwy.



Dechreuodd pobl gwyno am yr arogl a sylweddolodd gwleidyddion a oedd yn gweithio gerllaw'r afon ei bod hi'n bryd uwchraddio'r system garthffosiaeth. Ond roedd hynny dros 160 o flynyddoedd yn ôl.

Dydy'r system garthffosiaeth o oes Fictoria ddim y gallu ymdopi â'r glaw ofnadwy o drwm rydyn ni'n ei brofi heddiw.

Allwn ni ddim dal ati i adeiladu pibellau mwy, oherwydd mae hi'n rhy ddruf eu hadeiladu a'u cynnal.

Felly, beth arall allwn ni ei wneud i arafu llif y dŵr i'n system ddraenio bresennol?

# DATRYSIADAU SEILIEDIG AR NATUR

Mae Systemau Draenio Cynaliadwy, neu SDCau (SuDS yn Saesneg), yn ffordd o ddefnyddio byd natur i leihau rhai o effeithiau llifogydd.

Maen nhw’n manteisio ar allu byd natur i arafu’r cyflymder y mae dŵr yn cyrraedd y ddaear ac i gynyddu’r cyflymder y mae’r ddaear yn amsugno’r dŵr hwnnw.

Ni all hyd yn oed y Systemau Draenio Cynaliadwy gorau atal pob achos o lifogydd. Ond maen nhw’n cael eu defnyddio i arafu llif y dŵr.



*Gardd law wedi’i dylunio gan Trees for Cities yng Nghaerlŷr*



Os cewch eich dal yn y glaw, efallai y byddwch yn rhedeg o dan goeden i gadw'n sych. Mae hyn am ei bod yn cymryd peth amser i'r dŵr ddisgyn drwy'r holl haenau o ddail.

Mae'r dail yn arafu llif y dŵr glaw.

Bydd gwreiddiau'r goeden yn torri drwy'r ddaear o dan y goeden. Mae hyn yn caniatáu i ddŵr gael ei amsugno'n haws i'r pridd.

Yna mae'r gwreiddiau'n amsugno'r dŵr o'r pridd.



# GERDDI GLAW

Gallwn newid arwynebau anhydraidd yn rhai hydraidd – mewn ardaloedd sy'n cael llifogydd.

Un datrysiad yw creu gardd law yn yr ardaloedd hynny

Gellir ei llenwi â choed a phlanhigion sy'n ffynnu mewn tywydd arferol ond sydd hefyd yn gallu ymdopi â llifogydd.





# PANTIAU

Mae glaswellt a phridd yn llawer mwy hydraidd na phalmentydd neu darmac.

Os cloddiwch bant neu ffos yn y ddaear ble mae’r dŵr yn cronni’n naturiol, bydd y dŵr yn gallu treiddio i’r ddaear yn haws. Mae hyn yn atal y dŵr rhag llifo i lefydd y mae pobl yn eu defnyddio.



# GWELYAU TYFU PEIPEN LAW

Pan fydd hi'n bwrw glaw, mae'r holl ddŵr sy'n glanio ar y to yn cael ei anfon i lawr y beipen law.



Mewn glaw trwm, gall y dŵr sy'n llifo fod yn drech na gallu'r beipen i'w gludo, a hynny'n achosi i'r dŵr lifo i'r ddaear, gan arwain at lifogydd.


Yma, mae'r dŵr yn cael ei ddargyfeirio o'r beipen law i wely tyfu sy'n gallu cymryd rhywfaint o'r dŵr hwnnw cyn iddo orlifo.

Mae'r planhigion a gaiff eu defnyddio yn ffynnu mewn tywydd arferol ond gallant hefyd ymdopi â llifogydd.



# AILWYLLTIO AFONYDD A DOLYDD

Mae llawer o afonydd sydd wedi'u **camlesu** yn y gorffennol yn cael eu dychwelyd i gyflwr mwy naturiol, sy'n golygu adfer yr **ystumiau** a'r glannau glaswelltog.



Bydd ailgyflwyno afancod, sy'n cwympo coed ac yn adeiladu argaeau, yn golygu bod y dŵr yn cael ei ddal yn ôl yn bellach i fyny'r afon, a bydd hynny'n gwneud llifogydd mewn dinasoedd yn llai tebygol.

# PAM DEWIS DATRYSIADAU SEILIEDIG AR NATUR?

Mae yna lawer o fanteision i syniadau sy'n seiliedig ar natur. Yn ogystal â bod yn rhatach i'w hadeiladu a'u cynnal na systemau carthffosiaeth, mae Systemau Draenio Cynaliadwy yn cynnig holl fanteision eraill byd natur i ni:

- Amsugno a storio carbon deuocsid
- Lleihau llygredd aer
- Darparu cynefin i fywyd gwyllt a chynyddu bioamrywiaeth
- Yn llesol i'n hiechyd meddwl a chorfforol
- Gwneud ein dinasoedd yn llefydd brafiach i fyw, i ni ac i anifeiliaid eraill

# YMARFER MAPIO'R MAES CHWARAE

Ewch yn ôl at eich map o'r ysgol. Ystyriwch pa Systemau Draenio Cynaliadwy y gallwch chi eu defnyddio. Nodwch nhw ar eich map. Gwnewch allwedd newydd ar y gwaelod.

- Beth sydd angen aros ble mae? Beth allwn ni ddim ei newid?
- Ble mae'r dŵr yn cronni? Nodwch le i bant, i goeden neu ardd law
- Ble mae'r dŵr wyneb yn llifo? Ychwanegwch rywfaint o goed neu laswellt
- Ble mae yna beipiau glaw? Ychwanegwch wely tyfu peipen law



**Allwedd:**

Pantiau

Lle i goeden

Gardd law

Gwely tyfu peipen law

# BETH I'W WNEUD OS BYDD LLIFOGYDD

Beth ydych chi'n ei wneud yn eich ysgol os bydd tân? Rhywbeth fel hyn, mae'n debyg:

1. Bydd rhywun yn seinio'r larwm tân
2. Bydd oedolyn cyfrifol yn galw'r gwasanaethau brys
3. Dilynwch holl gyfarwyddiadau'r athro
4. Gadewch eich holl bethau ar ôl
5. Gadewch yr adeilad yn dawel ac ewch i fan y tu allan y cytunwyd arno
6. Arhoswch yn dawel mewn llinell y tu allan tra bo'r athro yn galw'r gofrestr i sicrhau nad oes neb wedi'i adael y tu mewn
7. Dylid ymarfer hyn o leiaf ddwywaith y flwyddyn fel bod pawb yn gwybod beth i'w wneud os bydd tân.

Beth yw dril llifogydd eich ysgol? Ysgrifennwch y camau isod.

# CWIS NEWID HINSAWDD

1.Beth yw'r gair am pan fydd dŵr yn newid o hylif i nwy?

(a) Toddi
(b) Anweddiad
(c) Cyddwysiad
(ch) Dyddodiad

2. Beth yw'r gair gwyddonol am law ac eira?

(a) Toddi
(b) Anweddiad
(c) Cyddwysiad
(ch) Dyddodiad

3. Beth yw ystyr hydraidd?

(a) Pan fo dŵr yn gallu pasio drwodd
(b) Pan fo dŵr ddim yn gallu pasio drwodd
(c) Cynefin da
(ch) Cynefin gwael

4. Pa un o'r canlynol sy ddim yn fath o lifogydd?

(a) Llifogydd afonol
(b) Llifogydd arfordirol
(c) Llifogydd dŵr wyneb
(ch) Llifogydd o lyn

5. Beth yw'r prif reswm y mae garddwyr yn defnyddio tai gwydr?

(a) I gadw planhigion yn oer
(b) I gadw planhigion yn sych
(c) I gadw planhigion yn gynnes
(ch) I alluogi'r garddwr i edrych ar y planhigion o'r tu allan

6. Pa un o'r canlynol sy ddim yn fath o nwy tŷ gwydr?

(a) Carbon Deuocsid
(b) Nitrogen
(c) Methan

7. Pam mae nwyon tŷ gwydr yn cael eu galw'n nwyon tŷ gwydr?

(a) Maen nhw'n cael eu cynhyrchu gan dai gwydr
(b) Cawsant eu darganfod mewn tŷ gwydr
(c) Maen nhw'n dda i blanhigion fel y mae tai gwydr
(ch) Maen nhw'n dal gwres fel tŷ gwydr

8. Gwir neu gau: Mae angen rhywfaint o effaith tŷ gwydr arnon ni

(a) Gwir
(b) Gau

9. Gall tymheredd cynhesach arwain at fwy o law oherwydd:

(a) Mae'n cynyddu faint o ddŵr sydd yn y moroedd a'r cefnforoedd
(b) Mae'n cynyddu cyfradd anweddiad
(c) Mae'n well gan gymylau ffurfio mewn aer cynnes
(ch) Mae pobl yn defnyddio mwy o ddŵr ar ddiwrnod cynnes

*Ydych chi'n gallu ateb pob un o'r cwestiynau hyn? Atebion ar waelod tudalen 32*

# BETH FYDD EI ANGEN ARNOCH OS BYDD LLIFOGYDD?

Mae llifogydd ychydig yn wahanol i argyfwng a achosir gan dân. Gyda llifogydd, ar y cyfan cewch fwy o rybudd a bydd mwy o amser gyda chi.

Fodd bynnag, fe allech gael eich dal yn y llifogydd heb ffordd allan. Felly, mae'n syniad da bod â **bag cydio** sy'n hawdd ei gyrraedd ac sy'n cynnwys rhywfaint o eitemau pwysig y gallai fod eu hangen arnoch.

Isod mae rhestr o eitemau. Rhowch gylch o amgylch y rhai rydych chi'n meddwl y byddai'n bwysig i chi fynd gyda chi os bydd llifogydd.



# PAM MAE ANGEN I NI ARBED DŴR?

Cofiwch fod newid hinsawdd yn golygu cynnydd yn nhebygolrwydd a difrifoldeb pob math o dywydd eithafol, gan gynnwys stormydd a **sychder**.



Bydd angen i ni ddysgu i ddal, storio a chadw dŵr lle bo modd.

Mewn un diwrnod, cyfrwch sawl gwaith rydych chi'n gwneud pob un o'r gweithgareddau, a nodwch hynny yn y golofn 'Cyfanswm'. Mae 'Faint o ddŵr?' yn rhoi amcangyfrif o faint o ddŵr byddwch chi'n ei ddefnyddio bob tro y byddwch chi'n gwneud y gweithgaredd. Lluoswch y ddau rif hwn gyda'i gilydd i gael syniad o faint o ddŵr a ddefnyddioch i gyd.

| Gweithgaredd | Cyfanswm | Faint o ddŵr? | Cyfanswm y dŵr |
|---|---|---|---|
| Arllwys gwydraid o ddŵr | | 1l | |
| Golchi dwylo | | 5l | |
| Brwsio dannedd | | 10l | |
| Defnyddio'r peiriant golchi llestri | | 15l | |
| Defnyddio'r peiriant golchi dillad | | 60l | |
| Fflysio'r toiled | | 10l | |
| Cael cawod | (munudau) | 8l/munud | |
| Cael bath | | 80l | |
| | | Cyfanswm: | |

# LLEIHAU EICH DEFNYDD O DDŴR

Pa bethau allwch chi eu gwneud ym mhob ystafell yn eich tŷ i leihau faint o ddŵr rydych chi'n ei ddefnyddio?

I'ch helpu, gofynnwch i'ch athro, eich rhieni neu'r rhyngrwyd am rywfaint o syniadau.



**Y Gegin**

Ystyriwch pa weithgareddau rydych chi'n eu gwneud yn y gegin. Beth yw rhai o'r ffyrdd y gallech ddefnyddio llai o ddŵr?



## Yr Ystafell Ymolchi

Rydyn ni'n defnyddio llawer o ddŵr yn yr ystafell ymolchi. Ystyriwch pa bethau rydych chi'n eu gwneud sy'n defnyddio'r mwyaf o ddŵr; sut allen ni eu gwneud yn fwy effeithlon o ran dŵr?



## Y Tu Allan

Os oes gardd gyda chi (neu efallai bod gardd gan eich ysgol), sut allwch chi ddefnyddio llai o ddŵr yma? Allwch chi wneud eich siopa yn fwy effeithlon o ran dŵr? Ymchwiliwch i faint o ddŵr sy'n mynd i wneud eich bwyd a'ch dillad.



# GEIRFA

**Anhydraidd** - Arwynebau sy ddim yn amsugno dŵr

**Anweddiad** - Pan fydd hylif yn troi'n nwy (DS - mae hyn yn digwydd ni waeth beth fo'r tymheredd, yn wahanol i ferwi, sy'n digwydd ar y pwynt berwi)

**Atmosffer** - Y gymysgedd o'r holl nwyon sy'n amgylchynu'r ddaear

**Bag cydio** - Yn cael ei alw weithiau yn "fag argyfwng". Bag yn cynnwys eitemau defnyddiol y gallwch gael gafael arno'n gyflym pan fydd rhaid gadael eich cartref

**Bioamrywiaeth** - Yr holl amrywiaeth o rywogaethau mewn ardal ynghyd â'u nifer

**Camlesu** - Pan fydd afon a fu'n llifo'n naturiol yn cael ei throi'n gamlas, gan ei gwneud ar y cyfan yn fwy syth ac yn ddyfnach a throi ei glannau'n argloddiau

**Carbon Deuocsid** - Nwy tŷ gwydr, sy'n cael ei ryddhau pan gaiff tanwydd ffosil fel glo ac olew eu llosgi

**Dyddodiad** - Pan fydd dŵr yn disgyn o'r awyr, er enghraifft fel glaw, eira neu gesair

**Egni thermol** - Y math o egni sy'n cael ei storio mewn gwrthrychau poeth

**Gorlifdir** - Yr ardal o amgylch afon y mae dŵr yn gorlifo iddi

**Hydraidd** - Arwynebau a sylweddau sy'n amsugno dŵr

**Lleithder** - Pan fo llawer o anwedd dŵr yn yr aer. Mae'n achosi tywydd clòs, sy'n gwneud i chi deimlo'n chwyslyd

**Llifogydd** - Pan fydd dŵr yn glanio ar ardal yn gyflymach nag y gellir ei gludo ymaith neu ei amsugno, gan achosi i ardaloedd sydd fel arfer yn sych gael eu gorchuddio â dŵr

**Llifogydd Dŵr Wyneb** (**Glawol**) - Pan fydd glaw yn glanio ar arwynebau anhydraidd, yn rhedeg am i lawr ac yn achosi llifogydd

**Llifogydd Glaw** - Gweler Llifogydd Dŵr Wyneb

**Llifogydd o Afonydd (Afonol)** - Pan fydd mwy o ddŵr mewn afon nag y mae'r afon yn gallu ei ddal, gan achosi i'r dŵr lifo dros ei glannau ac i'r tir cyfagos

**Newid Hinsawdd** - Y newid mewn systemau tywydd byd-eang (dros gyfnod hir) sy'n cael ei achosi gan garbon deuocsid yn yr atmosffer

**Nwy methan** - Yn cael ei alw'n "nwy naturiol" weithiau, mae hwn yn danwydd ffosil ac yn nwy tŷ gwydr

**Nwy Tŷ Gwydr** - Nwyon sy'n helpu i ddal egni thermol yn atmosffer y ddaear, gan godi'r tymheredd dros y byd

**Pant** - Ardal o dir isel y gall glaw redeg i mewn iddo. Gall fod yn naturiol neu'n artiffisial

**Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau)** - Dulliau naturiol, fel plannu coed a chodi palmentydd, i leihau perygl a difrifoldeb llifogydd

**Tanwydd Ffosil** - Glo, olew a nwy methan. Mae'r rhain yn fathau anadnewyddadwy o danwydd ac yn rhyddhau carbon deuocsid pan gânt eu llosgi

**Trefoli** - Symudiad cyffredinol pobl o gefn gwlad i drefi a dinasoedd

**Trydarthiad** - Pan fydd dŵr yn cael ei amsugno gan goed a phlanhigion ac yn anweddu drwy dyllau yn y dail

**Ystum** - Tro neu ddolen mewn afon

Atebion i'r cwis ar dudalen 27
1c, 2ch, 3a, 4ch, 5c, 6b, 7ch, 8a, 9b.

TREES FOR CITIES

www.treesforcities.org

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales